# <u>Cofnodion</u> Cyngor Cymuned Pentir

**Cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid nos Fercher 28ain o Ebrill 2021**
**yn Rhithiol am 7.00pm.**

Presennol Cyng J Pierce, Cyng D Jones-Morris, Cyng D W Jones Cyng L A James a Cyng B Jones,

<u>Ymddiheuriadau</u> Pawb yn bresennol

Yn absennoldeb y Cadeirydd ar gychwyn y cyfarfod cafodd y Cyng D W Jones ei ethol i Gadeirio

Cod Ymddygiad
Atgoffa pawb o'r Cod ymddygiad ag os oedd gan rhywun angen datgan buddiant yna byddai angen iddynt wneud hynny ar lafar heno fel y gallai'r Clerc gofnodi

<u>Cofnodion Cyfarfod diwethaf</u> 24-03-2021
Cyng D Jones-Morris yn cynnig a'r Cyng B Jones yn eilio eu bod yn gofnodion cywir

Materion yn codi o'r cofnodion
Dim nad oedd wedi ei gynnwys ar yr Agenda

Adroddiad Ariannol
Rhannwyd y daflen ariannol y rhithiol ar y sgrin
Yn y cyfrif <u>Cyfredol £17,764.37 a £25,037.81 yn y cyfrif cadw yn dilyn derbyn £0.62c o log</u>

Archwylwyr Allannol
Dim wedi ei adrodd yn ol

Argymhellwyd talu'r anfonebau a ganlyn
Cyflog Ebrill **£600.04** Treth Incwm Mis Ebrill **£149.80** Torri Gwair Mawrth **£340.00**
Costau'r Clerc am inc **£60.50** ond ychwnegodd bod hefyd angen stampia ag y byddai'n ychwanegu hynny at y swm cyn derbyn cadarnhad y Cyngor Llawn

Ceisiadau Nawdd Dim cais wedi dod i law

Prosiectau

I. Prosiect Ysgol Y Faenol Cyng L A James yn adrodd fod yr Ysgol bellach yn defnyddio y Neuadd erbyn hyn Ymddengys fod yna lwybr i flaen yr adeilad a holwyd os oedd hwnnw i aros yntau dros dro,
'Roedd pwyllgor Rheoli'r Ganolfan wedi cytuno i ariannu rhai elfennau o'r prosiect ond dim manylder wedi ei gytuno hyd yma. **Bydd angen trafod y manylder hynny yn y misoedd nesaf**
II. Septic Tanc Glasinfryn Nemor ddim wedi digwydd oherwydd profedigaeth Y Clerc wedi siarad hefo W Font i drefnu cyfarfod safle
III. Logo Cyng L A James wedi anfon samplau oedd y Dylunydd wedi ei baratoi Cytunwyd argymell tri oherwydd bod ambell esiampl yn siwtio lleoliad yn well nai gilydd e.e. Wrth Ddrws y Ganolfan – ar ein hysbysfyrddau – ar bapur penawd.
Cyng L A James am gadarnhau hefo'r dylunydd pa esiamplau
**Mynd ar argymhellion i'r Cyngor Llawn**

<u>Trafodwyd hefyd</u>

- Yswiriant
  Y Clerc wedi derbyn 2 amcanbris gan Came&Company ond yn disgwyl amcanbris gan Gwmni

arall. Y ddau amcanbris dderbynwyd yn sylweddol is na'r Amcanbris adnewyddu gan BHIB.
**Cytunwyd disgwyl am y trydydd amcanbris a cadarnhau yn y Cyngor Llawn**

- Cais Talu mlaen llaw am gladdedigaeth Y Clerc wedi derbyn cais eitha anghyffredin gan gwpwl oedd yn dymuno talu am eu claddedigaeth mewn bedd teulu yn yr hen fynwent
  **Argymhellwyd codi tal o £400**

- Ffordd Menai Yn sgil cwyn i Wynedd ynglyn a gor-yrru a chyflwr y ffordd yn gyffredinol daeth ymateb eu bod yn ymwybodol o'r peryglon i gerddwyr a beicwyr a'u bod wedi neilltu arian i weld beth yn union ellir ei wneud i'w diogelu. Sonwyd y byddai posib i ni geisio cyd-weithio gan mae'n arferol Cynghorau Cymuned allai dalu am oleuadau stryd fyddai wedyn yn cael eu mabwysiadu gan yr Awdurdod Lleol.
  **Estynwyd gwahoddiad i'r swyddog ddod i'n cyfarfod**

- Cysgodfan Nant y Mownt Y Clerc wedi ail-godi'r prosiect yma hefo Swyddogion Gwynedd oherwydd i ni dderbyn gwrthwynebiad i leoliad y gysgodfan. Swyddog Gwynedd yn hapus i symud rhywfaint ymhellach oddiwrth mynedfa'r gwrthwynebwr.
  **Clerc angen cael cytundeb gyda'r gwrthwynebwr a chysylltu hefo'r contractwr**

- Asesu Risg
  Dim diweddariad ond angen ail-ddosbarthu'r gofrestr i bawb gan y bydd angen ei adolygu ar gyfer y Flwyddyn ariannol 2021-22

Daeth y cyfarfod i ben am 8.20